

CADER IDRIS

Fe welir sawl bwlch pwysig yn y rhanbarth mynyddig hwn, bylchau sy'n caniatáu teithio rhwng y Gogledd a'r De. Mae rhai o'r llwybrau wedi colli eu pwysigrwydd wrth i ddulliau teithio newid. Fodd bynnag, nid yw'r bwlch sy'n caniatáu i ffordd cyn-hanesyddol Y Ffordd Ddu i osgoi Cader Idris yn cael ei enwi fel bwlch, fe'i gelwir yn syml yn Nhrawsfynydd ac mae'r enw wedi'i roi i fryn cyfagos.

Bwlch Aran SH 734136

Llechwedd ar osgo i fyny'r mynydd yw'r bwlch hwn, uwch llyn a enwir yn Llyn Aran; mae Aran yn gyfeiriad at 'man uchel, uchder'. Nid yw'r enw i'w weld ar fapiau'r AO.

Bwlch Cau SH 709125

Dyma'r pwynt isaf ar y grib rhwng Mynydd Pencoed a Chader Idris; er nad yw yn y sefyllfa gywir ar y map OS ar hyn o bryd.

Bwlch Coch SH 749157

Nid oes enw ar y mapiau heddiw, ond mae'r enw i'w weld fel enw fferm Bwlch Coch. Yr oedd y bwlch ar lwybr pwysig ar un adeg, yn mynd tuag at Ddolgellau o'r De. Mae'n cael ei nodi ar fap John Evans o 1795 o Ogledd Cymru.

Bwlch Cyfyng SH 672065

Dyma'r enw am y culhau yn y dyffryn wrth fynd o Abergynolwyn tuag at Dywyn; Mae'r gair cyfyng 'cul, cyfyngedig' yn diffinio'r safle'n berffaith. Bwlch gyving 1597 Llawysgrifau Maesyneuadd, Bulch Kyfinge 1600 Llawysgrifau Elwes, Bwlch-y-gyfyng 1837 AO.

Bwlch Llyn Bach SH 755137

Bwlch Tal-y-llyn yw'r enw a roddir yn gyffredinol i'r adwy heddiw. Fodd bynnag, yr hen enw oedd Bwlch y Llyn Bach; fe ddiflannodd y llyn bach wrth adeiladu'r ffordd bresennol. Enw hŷn ar y llyn oedd Llyn y Tri Greyenyn, [greyenyn 'cerrig'], sef y tair craig enfawr sydd i'w gweld ger y ffordd o hyd. Yn ôl y chwedl, teimlai'r cawr Idris y cerrig yn ei esgidiau a'u lluchio allan yn y fan hon.

Bwlch Oerddrws SH 795172

Thema cyffredin iawn yn enwau bylchau mynyddig yw'r gwynt a'i effaith; gyda'r gwynt yn gwneud y bylchau yn fannau oer iawn. Dyma un enghraifft o hyn, gyda'r disgrifion oer + drws 'adwy'. Mae'r bwlch wedi bod yn un pwysig ers canrifoedd.

Bwlch Rhiw Gwredydd SH 691135

Mae'r enw yn deillio o ddefnydd y bwlch, ar adegau, i symud da byw; rhiw 'llethr' + gyriedydd 'gyrrwr, porthmyn'. Gyriedydd yw'r enw lleol ar y llechwedd sy'n ymestyn tuag at y bwlch a hwn oedd ar y mapiau cynnar. Rhiw'r-gyriedydd 1837 AO.

Bwlch Siglen SH 837137

Siglen 'cors, tir mawnog', sy'n deillio o'r teimlad sigledig 'crynu' wrth groesi tir corsiog; teimlad sydd yn gywir i'r lleoliad.

Bwlch Ty'n y Fach SH 685100

Codwyd yr enw o'r fferm islaw.

Bwlch y Cŵn SH 705131

Yr enwau eraill ar yr un bwlch yw Bwlch y Gwynt a Bwlch Cyfrwy 'sedd march, gobell'.

Bwlch y Foty SH 669127

Cwtogiad y gair hafoty, ei hynan yn gwtogiad o hafod + ty.

Bwlch y Tri Arglwydd SH 809097

Mae'r enw tri + arglwydd yn arwydd bod anghydfod wedi bod yn yr ardal ers talwm; mae'n dal i fod ar ffin heddiw.